**Eitem ar yr agenda: 5**

# AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

**PWYLLGOR:** PANEL GWEITHREDOL

**DYDDIAD:** 14 IONAWR 2004

**ADRODDIAD GAN:** Y TRYSORYDD

**PWNC:** Y GYLLIDEB REFENIW 2004/05

1. Bydd yr aelodau'n cofio bod yr Awdurdod, yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2003, wedi cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2004/05 ac wedi penderfynu [Cofnod 11(v)]: *"os bydd unrhyw arian trosiannol yn dod ar gael, neu unrhyw arbedion eraill yn digwydd cyn 14 Ionawr 2003, i ddirprwyo'r pwerau i osod lefel is i'r gyllideb i'r Panel Gweithredol, neu, os bydd unrhyw ddatganiadau neu arbedion yn digwydd ar ôl y dyddiad hwn ond cyn 15 Chwefror i ddirprwyo'r pŵer hwn i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc".*

2. Y sefyllfa bresennol yw na nodwyd unrhyw arbedion penodol eraill mewn gwariant refeniw, felly ni fydd unrhyw newidiadau'n digwydd i'r gyllideb yn hyn o beth. O ran arian trosiannol, ni wnaed unrhyw ddatganiad hyd yn hyn o ran Awdurdodau Tân yng Nghymru. Gwnaed datganiad ar gyfer Lloegr lle mae'n glir y byddai'n rhaid talu'r arian yn ôl yn 2005/06, ond nid yw'n hollol glir a fyddai'r arian yn dod trwy grant uniongyrchol ynteu fel cynnydd yn y Grant Cefnogi Refeniw. Petai'r olaf yn berthnasol i Awdurdodau Tân Cyfunol, byddai'r Grant Cefnogi Refeniw mae'n debyg yn mynd i'r Awdurdodau Cyfansoddol, a hwythau'n medru lliniaru cost eu cyfraniadau i'r Awdurdod Tân. Yna, byddent yn gorfod cynllunio ar gyfer talu'r arian yn ôl yn y dyfodol.

3. Oni bai fod y sefyllfa'n newid wedi dyddiad llunio'r adroddiad hwn, ni fydd y Panel Gweithredol felly'n gorfod ystyried unrhyw newid i'r Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2004/05; ystyrir yn hytrach weithredu yn ôl ail ran y Cofnod.

K W Finch
**Trysorydd**

6 Ionawr 2004

CTTEES04 : Awdurdod Tân 01)